

Diffiniadau Nodweddion Gwarchoddedig

Trwy gydol y polisi, byddwch yn gweld cyfeiriad at 'nodweddion gwarchoddedig'. Mae'r dudalen hon yn rhoi mwy o wybodaeth am bob un o'r naw nodwedd warchoddedig fel y'i diffinnir o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010.

Oed

Lle cyfeirir at hyn, mae'n cyfeirio at berson yn perthyn i oedran penodol (e.e. 32 oed) neu ystod o oedrannau (e.e.18-30 oed).

Anabledd

Mae gan berson anabledd os oes ganddo / ganddi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar allu'r person hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Ailbennu rhywedd

Y broses o newid neu o drawsnewid o un rhyw i un arall.

Priodas a phartneriaeth sifil

Mae priodas yn cael ei diffinio fel 'uniad rhwng dyn a dynes'. Gall cyplau o'r un rhyw gael eu perthnasau wedi'u cydnabod yn gyfreithlon fel 'partneriaethau sifil'. Rhaid trin partneriaid sifil yr un fath â chyplau priod ar ystod eang o faterion cyfreithiol.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu yn disgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl y geni, ac mae'n gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth yn y cyd-destun cyflogaeth. Yng nghyd-destun y tu allan i'r gwaith, mae amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu ar sail mamolaeth am 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth, ac mae hyn yn cynnwys trin menyw yn anffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron.

Hil

Mae'n cyfeirio at nodwedd warchoddedig hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir yn ôl eu hil, lliw a chenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth) tarddiadau ethnig neu genedlaethol.

Crefydd a chred

Mae crefydd yn cynnwys yr ystyr a roddir iddi fel arfer ond mae cred yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol gan gynnwys diffyg cred (ee anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau mewn bywyd neu'r ffordd yr ydych yn byw iddo gael ei gynnwys yn y diffiniad.

Rhyw

Dyn neu ddynes.

Tueddiad rhywiol

Pa un a yw atyniad rhywiol person tuag at ei ryw ei hun, y rhyw arall neu at y ddau ryw.